

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-981
Ein cyf/Our ref DET/01209/20

Janet Finch-Saunders MS
Y Pwyllgor Deisebau
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynullaid.cymru

25 June 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders MS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Mehefin ynghylch deiseb P-05-981 i ganiatáu i gampfeydd a chanolfannau hamdden ailagor.

O dan y canllawiau presennol, mae stiwdios ffitrwydd, campfeydd, pyllau nofio neu ganolfannau hamdden dan do eraill wedi'u rhestru fel safleoedd y mae'n rhaid iddynt aros ar gau. Fodd bynnag, caniateir hyfforddiant a hyfforddi personol un-i-un, ar yr amod ei fod yn digwydd yn yr awyr agored, a bod yr holl gamau cymdeithasol a mesurau hylendid presennol yn cael eu dilyn.

Rydym yn dysgu mwy am y firws bob dydd ac rydym yn gwybod bod y risg o drosglwyddo yn is yn yr awyr agored na dan do a dyna pam ein bod wedi gallu lliniaru'r cyfyngiadau yn dilyn yr adolygiad diwethaf, ar 18 Mehefin, i ganiatáu i'r rhan fwyaf o gyfleusterau awyr agored ail-agor. Fodd bynnag, nid yw risg is yn golygu dim risg. Hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyn mae'n hanfodol ein bod i gyd yn cynnal ymbellhau cymdeithasol fel y gallwn barhau i fynd i'r afael â lledaeniad y firws hwn.

Parhawn i drafod dychweliad chwaraeon ac ymarfer corff gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid yn y sector, ac mae awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau hamdden yn aelodau allweddol o'r grwpiau a sefydlwyd i gyflwyno cynigion ar gyfer pob arolwg o'r rheoliadau coronafeirws.

Yn gywir,

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.